Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015:

# Adroddiad cynnydd ar gyfer y cyfnod o 29 Ebrill 2015 hyd 31 Mawrth 2017

© Hawlfraint y Goron Ionawr 2018 WG33806 ISBN digidol 978-1-78903-381-6

**Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: Adroddiad cynnydd ar gyfer y cyfnod o 29 Ebrill 2015 hyd 31 Mawrth 2017.**

Yn unol ag adran 12 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (‘y Ddeddf’), rhaid i Weinidogion Cymru, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol, gyhoeddi adroddiad sy’n rhoi sylw i’r canlynol:

- ✓ y cynnydd a wnaed o ran cyflawni’r amcanion yn y strategaeth genedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (2016-2021);

- ✓ y cynnydd sydd wedi ei wneud tuag at gyflawni diben Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yng Nghymru (gan gyfeirio at y dangosyddion cenedlaethol)

- ✓ rhagfynegiadau o dueddiadau tebygol yn y dyfodol ac unrhyw ddata dadansoddol eraill (os yw’n cael ei gyhoeddi yn ystod y cyfnod o 12 mis sy’n dechrau â dyddiad etholiad cyffredinol)

Mae’r adroddiad hwn yn ymdrin â’r cyfnod rhwng y dyddiad y daeth adran 12 o’r Ddeddf i rym (5 Hydref 2015) a diwedd y flwyddyn ariannol ganlynol (31 Mawrth 2017). Gan nad yw’r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi o fewn 12 mis o etholiadau diwethaf y Cynulliad nid yw’n cynnwys rhagfynegiadau o dueddiadau tebygol ar gyfer 2017-2018. Yn unol â’r Ddeddf, dylid cyhoeddi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ac yn y dyfodol, bydd adroddiad blynyddol ar gael bob blwyddyn yn amlinellu’r cynnydd.

**Sylwer**

Mae’r Ddeddf yn nodi y dylai cynnydd sydd wedi ei wneud tuag at gyflawni diben Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yng Nghymru gael ei adrodd drwy gyfeirio at y dangosyddion cenedlaethol. Nid yw’r dangosyddion cenedlaethol wedi’u cyhoeddi eto, felly rhoddwyd amlinelliad cronolegol o’r cynnydd. Rhagwelir y bydd y Dangosyddion Cenedlaethol yn cael eu cyhoeddi yn 2018, dan oruchwyliaeth y Cynghorydd Cenedlaethol newydd.

Mae’r Ddeddf hefyd yn nodi y dylai’r adroddiad hwn gynnwys esboniad o unrhyw ddiwygiadau i’r strategaeth. Ni wnaethpwyd unrhyw ddiwygiadau.

| Dyddiad | Amcan strategol perthynol (Strategaeth Genedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol 2016-2021) a/neu adran berthynol o'r Ddeddf | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Mehefin 2015** | **Amcan 4:** Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal.<br><br>**A.15** Pŵer i ddyroddi canllawiau statudol i awdurdod perthnasol ar y modd y dylai'r awdurdod arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar gyfrannu at ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon. | **Lansio cynllun peilot "Gofyn a Gweithredu" ar ddau safle mabwysiadu'n gynnar.**<br>Proses o ymholi wedi'i dargedu, i'w weithredu ar draws y gwasanaethau cyhoeddus er mwyn adnabod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yw "Gofyn a Gweithredu".<br><br>Mae tua 1300 o weithwyr Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg ac awdurdodau lleol Gwent wedi cael eu hyfforddi i "Ofyn a Gweithredu"<br><br>Bydd y cynllun peilot hwn yn darparu model "Gofyn a Gweithredu" clir a fydd yn cael ei gyflwyno a'i roi ar brawf yn raddol mewn ardaloedd eraill yn 2017. |
| **Gorffennaf 2015** | **A.20** Rhaid i Weinidogion Cymru benodi person fel Cynghorydd Cenedlaethol | **Penodi'r Cynghorydd Cenedlaethol**<br>Y Cynghorydd Cenedlaethol cyntaf ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Trais sy'n seiliedig ar Rywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. |
| **Medi 2015** | **Amcan 5:** Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr. | **Lansio gwasanaeth eDdysgu ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**<br>Mae'r gwasanaeth eDdysgu hwn yn darparu hyfforddiant sylfaenol, di-dâl am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac mae ar gael i bawb yng Nghymru.<br><br>Mae dros 25,000 o weithwyr mewn awdurdodau perthnasol.<br>https://learning.wales.nhs.uk/?lang=cy |

| | | |
|---|---|---|
| **Medi 2015** | **Amcan 2**: Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser. | **Prosiect Cyfranogiad Ieuenctid**<br>Ariannodd Llywodraeth Cymru BAWSO ac NSPCC Cymru i weithio ar y cyd ar brosiect cyfranogiad ieuenctid arloesol, a fyddai'n mynd i'r afael â materion yn ymwneud â hawliau merched ifanc ac arferion niweidiol, yn enwedig anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM). |
| **Hydref 2015** | **Amcan 2**: Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser. | **Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru**<br>Cyhoeddasom y canllaw arferion da hwn. Mae'r canllaw hwn yn cydnabod pwysigrwydd lleoliadau addysg fel amgylchedd lle gellir meithrin agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb rhywiol a chydberthnasau iach a llawn parch. |
| **Rhagfyr 2015** | **A.11** Cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y gellir eu cymhwyso at y diben o fesur cynnydd tuag at gyflawni diben y Ddeddf hon. | **Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu'r Dangosyddion Cenedlaethol**<br>Bydd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen rôl gynghorol ac ymgynghorol yn hytrach na rôl gwneud penderfyniadau. Rhagwelir y bydd y Dangosyddion Cenedlaethol yn cael eu cyhoeddi yn 2018. |
| **Rhagfyr 2015** | **Amcan 2**: Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser. | **Cynhadledd Addysg Genedlaethol – Cadw Dysgwyr yn Ddiogel – Busnes Pawb**<br>Cynaliasom gynhadledd addysg ar gyfer Cymru gyfan gyda'r Adran Addysg a Sgiliau, gan ganolbwyntio ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn y gynhadledd lansiwyd adnodd newydd yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant a rhoddwyd cymorth a chefnogaeth ymarferol i ymarferwyr addysg sy'n mynd i'r afael â phob agwedd ar drais sy'n seiliedig ar rywedd. |
| **Mawrth 2016** | **Amcan 5:** Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr<br><br>**A.15** Pŵer i ddyroddi canllawiau statudol i awdurdod perthnasol ar y | **Cyhoeddi canllawiau statudol ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.**<br>Am y tro cyntaf, mae safonau wedi'u gosod ar gyfer **hyfforddiant sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a cham-drin rhywiol**, gan godi proffil y materion hyn a diweddaru sgiliau'r gwasanaethau cyhoeddus er mwyn ymateb yn well i'r bobl sy'n cael profiad ohonynt. |

| | | |
|---|---|---|
| | modd y dylai'r awdurdod arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar gyfrannu at ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon | **Ers cyhoeddi'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol mae Llywodraeth Cymru wedi:**<br>-Ariannu hyfforddiant wedi'i dargedu ar gyfer gweithwyr cam-drin domestig ym mhob rhan o'r wlad, gan gynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol cymwys, arbenigol yng Nghymru yn sylweddol.<br>-Cynnig bwrsari i roi sylw i fwlch mewn hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol arbenigol.<br>-Darparu'r cwrs hyfforddiant cyntaf drwy gyfrwng y Gymraeg i reolwyr gwasanaeth arbenigol.<br>-Creu cyrsiau hyfforddiant newydd ar gyfer gweithwyr argyfwng trais rhywiol a chwnselwyr.<br>-Creu maes llafur pynciau arbenigol o unedau achrededig Agored Cymru i helpu i safoni hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ledled Cymru.<br>-Creu cyfres o ffilmiau wedi'u hanelu at arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus er mwyn codi ymwybyddiaeth o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r ffilmiau wedi cael eu gwylio dros 6,500 o weithiau. |
| **Mawrth 2016** | **Amcan 2**: Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser. | **Cyhoeddi canllaw codi ymwybyddiaeth i lywodraethwyr ysgolion**<br>Mae'r canllaw'n cynnwys nifer o gamau y gall llywodraethwyr eu cymryd er mwyn gwneud eu hysgol yn fwy diogel. |
| **Mehefin 2016** | **Amcan 2**: Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser. | **Adolygu'r adnoddau addysgu presennol sy'n ymwneud â pherthnasoedd iach a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**<br>Fel rhan o'r pecyn o fesurau addysgol a ddatblygwyd i helpu i weithredu'r Ddeddf, comisiynwyd Cymorth i Fenywod Cymru mewn partneriaeth ag AVA (Against Violence and Abuse) i ymchwilio a pharatoi pecyn o'r deunyddiau ymarfer gorau yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n cael eu |

| | | |
|---|---|---|
| | | hargymell. Cyhoeddwyd y pecyn i ddarparu gwybodaeth ac arweiniad i ddarparwyr addysg gynradd, uwchradd a phellach. |
| **Mehefin 2016** | **Amcan 2**: Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser | **Perthnasoedd Iach**<br>Comisiynwyd Estyn i gynnal adolygiad o addysg perthnasoedd iach sy'n bodoli mewn ysgolion. Mae'r adroddiad yn darparu llinell sylfaen sy'n dangos i ba raddau y mae addysg perthnasoedd iach yn cael ei darparu i ddisgyblion mewn ysgolion ledled Cymru ac yn argymell sut y gellid gwella'r ddarpariaeth bresennol. |
| **Awst 2016** | **Amcan 6:** Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau ledled Cymru, a'r rheini'n wasanaethau holistaidd o ansawdd uchel y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n cael eu harwain gan anghenion ac sy'n ymatebol i rywedd.<br>**A.15** Pŵer i ddyroddi canllawiau statudol. | **Comisiynu Canllawiau i wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**<br>Bu'r swyddogion yn gweithio gyda Sefydliad Banc Lloyds i greu pecyn comisiynu cydweithredol ar gyfer gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru a lansiwyd yn Awst 2016. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys y grŵp gorchwyl a gorffen cyllid cynaliadwy yn y gwaith o gynhyrchu canllawiau drafft a bydd yn ymgynghori'n ffurfiol ynglŷn â'r canllawiau cyn eu rhoi gerbron y Cynulliad yn 2018. |
| **Tachwedd 2016** | **A.3** Dyletswydd i baratoi, cyhoeddi ac adolygu strategaeth genedlaethol<br>**A. 4** Dyletswydd i weithredu'r strategaeth genedlaethol | **Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – Fframwaith Darparu 2016-2021**<br>Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn amlinellu chwe amcan y mae Gweinidogion Cymru'n disgwyl y byddant wedi'u cyflawni erbyn Tachwedd 2021. Mae'n seiliedig ar ymgynghoriad â goroeswyr a rhanddeiliaid.<br><br>Yn Chwefror 2017 sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i ddatblygu fframwaith darparu ar gyfer y strategaeth. |
| **Chwefror 2017** | **Amcan 6:** Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau ledled Cymru, a'r rheini'n wasanaethau holistaidd o ansawdd uchel y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n | **Trefniadau a phrosesau comisiynu rhanbarthol a lleol a chynhyrchu canllawiau comisiynu statudol.**<br>Ymunodd gweithiwr ar secondiad sydd â gwybodaeth arbenigol am ddiogelwch cymunedol â Llywodraeth Cymru yn gynnar yn 2017 i ddatblygu dull gweithredu rhanbarthol arfaethedig ar gyfer ariannu a |

| | | |
|---|---|---|
| | seiliedig ar gryfderau, sy'n cael eu harwain gan anghenion ac sy'n ymatebol i rywedd. | darparu gwasanaethau rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau'r Trydydd Sector.<br><br>Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen amlasiantaeth i ddatblygu model cyllid cynaliadwy, gan gynnwys archwilio trefniadau a phrosesau comisiynu rhanbarthol a lleol priodol a chynhyrchu canllawiau comisiynu statudol.<br><br>Os bydd y cynnig i ranbartholi'n cael ei dderbyn, a bod y canllawiau'n cael eu gwneud yn statudol, cynhelir ymgynghoriad. |
| **Chwefror 2017** | **Amcan 2**: Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser.<br><br>Mae adran 9 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi diwygio adran 29 o Ddeddf Addysg 1996 i roi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn ymwneud â gwybodaeth am ddarpariaeth addysgol i hybu diben Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. | **Panel Arbenigol ar Ryw a Pherthnasoedd**<br>Sefydlodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg banel arbenigol i ddarparu cyngor a chefnogaeth i Lywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â darparu addysg Perthnasoedd Iach yn y cwricwlwm presennol. Roedd swyddogion o'r tîm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn aelodau o'r Panel.<br><br>Bydd y gwaith hwn yn sail i unrhyw reoliadau posibl a wneir dan adran 29 o Ddeddf Addysg 1996. |
| **Mawrth 2017** | **Amcan 1:** Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru. | **Cyfathrebu**<br>Sefydlwyd grŵp Cyfathrebu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i ddarparu gwybodaeth i ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a darparu adborth wrth i'r ymgyrchoedd hyn ddatblygu. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud o fewn Fframwaith Cyfathrebu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol er mwyn gwella cydlyniant gweithgareddau cyfathrebu ledled Cymru. |
| **Mawrth 2017** | **Amcan 3**: Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu ymyriadau a chymorth iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr. | **Prosiect Cyflawnwyr.** Ymunodd gweithiwr ar secondiad o Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi â Llywodraeth Cymru yn gynnar yn 2017 i ddatblygu'r gwaith hwn. |

**Ymchwil a data sy'n dod i'r amlwg ac sy'n cael effaith ar wneud polisïau yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.**

Cyhoeddwyd llawer o ymchwil yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef.  Mae ymchwil yn cael ei nodi yma os yw'n uniongyrchol berthnasol at ddiben y Ddeddf.

**A Cry for Health**
Yn Nhachwedd 2016 cyhoeddodd Safelives "A cry for health".  Mae gan yr ymchwil hwn oblygiadau uniongyrchol o ran gweithredu "Gofyn a Gweithredu" ac o ran rôl Iechyd mewn trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Roedd yr ymchwil yn disgrifio'r cysylltiad annatod rhwng cam-drin domestig ac iechyd.  Canfu'r ymchwil fod gan bron i 60% o'r dioddefwyr a nodwyd mewn ysbytai bryderon iechyd meddwl a bod gan bron i hanner (49%) y dioddefwyr a nodwyd mewn ysbytai anhwylder straen wedi trawma (PTSD).

Roedd yr ymchwil hefyd yn awgrymu bod gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd yn colli cyfleoedd i gefnogi dioddefwyr a lleihau'r effaith ar eu hiechyd a'u lles, ond os nad oes cefnogaeth arbenigol yn cael ei darparu i ymateb i achos o gam-drin domestig sy'n cael ei ddatgelu, nid yw staff clinigol yn debygol o ofyn amdano. Bydd y canfyddiad hwn yn sail i'r gwaith o gyflwyno "Gofyn a Gweithredu".

**Adroddiad Femicide Census**

Yn Rhagfyr 2016, rhyddhawyd adroddiad Femicide Census, sy'n seiliedig ar waith Karen Ingala Smith a Chymorth i Fenywod â chefnogaeth gan Freshfields Bruckhaus Deringer LLP a Deloitte LLP. Mae'n cynnwys gwybodaeth am gyfnod o saith mlynedd am 936 o fenywod yng Nghymru a Lloegr gafodd eu lladd gan ddynion.

Er nad yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio'n benodol at Lywodraeth Cymru, mae'n darparu data defnyddiol a bydd ei argymhellion yn cael eu hystyried yng Nghymru.

**Project Mirabal - Domestic Violence Perpetrators - Changing the Story**

Dechreuodd yr ymchwil hwn yn 2009 a chafodd ei lansio'n ffurfiol yn Ionawr 2015. Ei nod oedd canfod a yw rhaglenni ar gyfer cyflawnwyr trais domestig yn llwyddo i leihau trais a chamdriniaeth gan ddynion ac yn rhoi mwy o ryddid i fenywod a phlant. Roedd hefyd yn ystyried sut y gellir galw cyflawnwyr i gyfrif, oherwydd hyd yn oed os yw Rhaglenni ar gyfer Cyflawnwyr Trais Domestig yn gweithio, mae eu capasiti cyfyngedig yn golygu nad yw'r rhan fwyaf o ddynion yn eu defnyddio.

**Saving Services to Save Lives**

Cyhoeddwyd yr ymchwil hwn yn gynnar yn 2016 gan Gymorth i Fenywod Cymru ac roedd yn seiliedig ar brofiad 23 o wasanaethau arbenigol yng Nghymru. Roedd yn gwneud argymhellion ynglŷn â threfniadau cyllid cynaliadwy a chomisiynu a fydd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith sydd wedi'i gynllunio ar y materion hyn.